**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwella Gwasanaethau a Chyllid

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 6 Mawrth 2019 am 9.30 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C A Holley (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J E Burtonshaw | P Downing | P R Hood-Williams |
| P K Jones | J W Jones | C E Lloyd |
| I E Mann | B J Rowlands | D W W Thomas |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Bethan Hopkins | Swyddog Craffu |
| Tracey McNulty | Pennaeth y Gwasanaethau Diwylliannol |
| Julie Nicholas-Humphreys | Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid a Chwynion |
| Sue Reed | Swyddog Datblygu Adeiladau Cymunedol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): M H Jones
Aelodau Cyfetholedig(wyr):
Mynychwyr eraill:

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

- Y Cyng. Paxton Hood-Williams - Cynghorydd Cymuned, Cyngor Cymuned y Crwys a Chilâ Uchaf a Chymdeithas Chwaraeon y Crwys a'r Cylch
- Y Cyng. Brigitte Rowlands - Cynghorydd Cymuned, Cyfeillion CCP a Chyfeillion Felindre a Neuadd Garnswllt
- Y Cyng. Jeff Jones - Cyfeillion Parc Dynfant
- Y Cyng. Peter Jones - Cyfeillion yr Ardd Fotaneg

2 **Cofnodion.**

- Cymeradwywyd

3 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

- Dim

4 **Adolygiad o Grwpiau Cymunedol - Cyfeillion Parciau/Canolfannau Cymunedol**

- Estynnodd y Cyng. Burtonshaw ddiolch diffuant i'r holl wirfoddolwyr sy'n ymwneud â gweithgareddau cymunedol - "byddai cymunedau'n chwalu hebddyn nhw"
- Mae grwpiau cymunedol yn bwysig i gymunedau, mae'r tîm yn gweithio gyda nhw i gael gwybod am yr hyn sy'n ofynnol ganddynt a'r hyn sydd ei angen arnynt
- Gall ganolfannau a lleoliadau a gynhelir gan wirfoddolwyr gael fynediad at grantiau nad ydynt ar gael i'r cyngor
- Mae gan leoliad Penderi gynllun gwobrwyo gwirfoddolwyr
- Mae sicrhau cynaladwyedd tymor hir adnoddau'n rhan o'r strategaeth gorfforaethol
- Ers 2016 mae llywodraethu wedi newid i fodel datblygu cymunedol
- Mae cynnwys y Pafiliynau Dinasyddion Hŷn wedi bod yn llwyddiant ysgubol
- Mae gan Abertawe 38 o ganolfannau cymunedol ffyniannus
- Mae'r neuadd yn y Glais yn enghraifft wych o weithio llwyddiannus mewn partneriaeth
- Mae nifer y staff yn y tîm cefnogi datblygiad cymunedol wedi lleihau'n sylweddol oherwydd toriadau'r cyngor.
- Mae arbedion wedi deillio o ganlyniad i'r model newydd
- Mae adeiladau'n parhau i fod yn ased y cyngor. Y cyngor yw'r landlord ac nid yw'r berthynas wedi'i thynnu'n ôl
- Mae gan y tîm ffolder o ddogfennau safonol ynglŷn â pholisïau a gweithdrefnau a sut i ymsefydlu grwpiau etc.
- Mae'r costau'r adeiladau/ardaloedd hyn yn berthnasol i'r cyngor ynghylch cynnal a chadw ac iechyd a diogelwch yn unig
- Mae perthynas barhaus â phrosiect Y Tu Hwnt i Frics a Mortar
- Bu llawer o fuddsoddiadau sylweddol – cymysgedd o grantiau a chyllido grwpiau
- Derbyniwyd buddsoddiad allanol gwerth £300k ar gyfer parciau
- Mae cefnogaeth ar gael i wirfoddolwyr wneud ceisiadau ar gyfer cyllid allanol ac mae'r tîm yn cefnogi hyn.
- Cydnabyddir Abertawe fel enghraifft o arfer da ynghylch datblygu cymunedol
- Cymeradwywyd y gefnogaeth a roddwyd ym Mhontarddulais – 'heb ei hail'
- Mae adeiladau cymunedol yn amhrisiadwy ond mae angen pobl newydd ar bwyllgorau i helpu i barhau â dyletswyddau
- Mae materion parhaus yn bodoli ynghylch recriwtio gwirfoddolwyr a cholli gwirfoddolwyr oherwydd gorweithio ond mae pobl iau yn dechrau cymryd rhan
- Ni roddir digon o gydnabyddiaeth i wirfoddolwyr
- Dylai'r adroddiad nodi cysylltiadau â'r Cynghorau Cymuned a CGGA
- Trafodwyd syniadau i gydnabod gwaith y gwirfoddolwyr
- Dylai'r drwydded nodi'n glir y gwahaniaeth rhwng trosglwyddo asedau cymunedol a'r trefniant presennol.
- Trafodwyd a ddylid cynnwys swyddogaethau cymunedol o fewn un gwasanaeth

## 5 Adroddiad Blynyddol Cwynion Corfforaethol 2017/18

- Mae'r duedd yn debyg i'r blynyddoedd cynharach - mae nifer y cwynion wedi cynyddu
- Mae rhywfaint o hyn oherwydd mynediad gwell at y weithdrefn cwyno
- Mae canmoliaeth yr un mor bwysig a dylid ei chydnabod
- Mae'r tîm yn edrych ar wraidd cwynion ac yn gweithio gyda thimau perthnasol i wella prosesau
- Ni noda'r adroddiad unrhyw bryderon na thueddiadau sylweddol
- Cadarnhawyd llai na 50% o gwynion cam 1
- Symudwyd 100 o gwynion i gam 2 ac o'r rheini, cadarnhawyd 24 ohonynt yn unig
- Dylai'r newidiadau i gerbydau cerbydlu'r adran wastraff fynd i'r afael â rhai o'r materion a oedd yn bodoli ynghylch cwynion am wastraff e.e. cerbydau wedi torri i lawr.
- Aeth 62 o bobl at yr Ombwdsman a chadarnhawyd 1 o'r cwynion hynny. Er hynny, roedd rhai o'r cwynion yn gynamserol a chyfeiriwyd hwy yn ôl i'r cyngor.
- Daw ceisiadau am wasanaeth cyn cwyn cam 1
- Gellir lleihau cynnwys Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio i un paragraff gan nas defnyddir yn aml oherwydd yr Heddlu sy'n ei defnyddio gan amlaf gyda chefnogaeth y cyngor
- Awgrymwyd ystyried ceisiadau rhyddid gwybodaeth mewn adroddiad ar wahân i'r tîm craffu yn hytrach nag eu cynnwys yn yr adroddiad cwynion.

6 **Cynllun Gwaith 2018 - 2019.**

- Amlygwyd yr eitemau archwilio newydd yn y cynllun gwaith
- Amlygwyd cyfarfod ychwanegol ym mis Mai
- Bwletin Perfformiad Llywodraeth Leol - cytunwyd i anfon dolen i'r wefan yn hytrach na'i gynnwys fel eitem cyfarfod

Daeth y cyfarfod i ben am 10.50am

**Cadeirydd**